



Ein cyf/Our ref: MA-L/ARD/0166/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales

8 Mawrth 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Chwefror ynghylch y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r canllawiau *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*, a fydd yn cael eu cyhoeddi'n gan Lywodraeth Cymru'n fuan.

Rwy'n ymwybodol o'r diddordeb sydd gan y Pwyllgor yn anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc - mae'n fater pwysig iawn. Fel y dywedais yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rwy'n hapus i ystyried a fyddai darpariaeth bellach yn y Bil, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar y llyfr statud, o gymorth i sicrhau bod buddiannau dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu gwarchod. Byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor.

Yn fy llythyr atoch ar 6 Chwefror, nodais y byddai'r canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi'r mis hwn. Rwyf wedi gwneud ymchwiliadau pellach ar ôl derbyn eich llythyr, ond yn anffodus ni fydd modd cyhoeddi'r canllawiau'n gynharach na hynny. Byddaf yn sicrhau, fodd bynnag, bod y Pwyllgor yn cael gwybod cyn gynted ag y byddant wedi'u cyhoeddi.

Roeddwn wedi trefnu bod fersiwn ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael i'r Pwyllgor y mis diwethaf er mwyn cynorthwyo â'r broses o graffu ar Bil. Os oes angen gwybodaeth bellach ar y Pwyllgor am y canllawiau *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd* i ategu'r broses o graffu ar y Bil, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddrafft o'r canllawiau y llynedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ceir copi o'r canllawiau draft yn y ddolen ganlynol:

<http://gov.wales/docs/dcells/consultation/160224-draft-guidance-cy.pdf>

Diolch yn fawr i chi am ysgrifennu ataf ynghylch y mater pwysig hwn. Edrychaf ymlaen at fy sesiwn dystiolaeth nesaf gyda'r Pwyllgor ar 22 Mawrth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

Alun Davies AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Lifelong Learning and Welsh Language